

## TUDALEN 89

Cofnodion y **Pwyllgor Asedau a Gwyrddu o bell** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 26 Ebrill 2021** am 6pm.

**YN BRESENNOL:** - Ei Deilyngdod y Maer Cynghorydd John Wyn Williams, Y Dirprwy Faer Cynghorydd Owen Hurcum  
Cynghorwyr: Les Day (Cadeirydd), Luke Tugwell, Medwyn Hughes, George Turner, Enid Parry, Elin Walker Jones. Roedd y Cynghorydd Catrin Wager (Cyngor Gwynedd) yn bresennol hefyd.

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro, Gwynfor Owen (Cyfieithydd)

### **414/19 YMDDIHEURIADAU**

Dim.

### **415/19 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Yng nghyd-destun diweddariad y Cyfarwyddwr Dinesig ar Bier Garth Bangor, datganodd y Dirprwy Faer Cyng Owen Hurcum eu bod yn gweithio ym Mhafiliwn y Pier.

### **416/19 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

### **417/19 MATERION BRYS**

Dim.

### **418/19 DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

Pier Garth Bangor: Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig ddiweddariad ar y pier. Rhoddodd y diweddaraf am y cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri, ymholiadau â'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, y trefniadau ar gyfer pen-blwydd 125 mlynedd y pier ar 14 Mai a dros y misoedd nesaf, a'r trefniadau yswiriant i'r pier.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyodd y Pwyllgor yr wybodaeth a dderbyniwyd.

Torri gwair a chynnal a chadw: Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig ddiweddariad ar y trefniadau ar gyfer torri gwair a chynnal a chadw. Cafwyd pris gan un contractwr allanol, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag ail contractwr yr wythnos hon. Trafododd y Pwyllgor yr angen i ychwanegu at y toriadau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd, a dywedwyd y dylai'r llefydd chwarae i blant a phobl ifanc gael blaenoriaeth. Trafododd y Pwyllgor y cyfleoedd i dyfu blodau gwyllt a'r angen i ystyried bioamrywiaeth. Dywedodd y Maer fod angen cynllun i daclo torri gwair dros y misoedd nesaf ond hefyd fod angen strategaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn cytuno fod angen trefniant cyn gynted â phosibl, a gan fod y Cyngor eisoes wedi cymeradwyo cyllideb o £10,000 i'r gwaith, mae angen i dorri gwair a chynnal a chadw gael ei flaenoriaethu ar frys.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod gwaith Cyngor Gwynedd yn y maes hwn, a dywedwyd fod Cymunedau Taclus a Glân yn flaenoriaeth yng nghynllun 2021/22. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod awgrym fod angen i swyddogion Cyngor Gwynedd, Cyngor Bangor a Phrifysgol Bangor fapio'r trefniadau torri gwaith ar eu tiroedd nhw yn y ddinas.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyodd y Pwyllgor yr wybodaeth a dderbyniwyd

### **419/19 BANGOR: DINAS WERDD**

Gan fod cyfarfod y Cyngor i fod i ddechrau am 7pm, gohiriodd y Cadeirydd yr eitemau agenda "Blaenoriaethau'r Pwyllgor 2021/22" ac "Adolygu'r Gofrestr Asedau" tan y cyfarfod nesaf.

Trafododd y Pwyllgor waith Cyngor Gwynedd yn y maes hwn, yn cynnwys cyflwyno codau QR ar finiau Ffordd y Coleg i helpu'r gymuned fyfyrwyr, ailwampio'r Ganolfan Ailgylchu a Phrosiect

Gwyrddu gyda YGC a fydd yn gweld coed yn cael eu plannu ym Mangor. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod yr ymgynghoriadau cyhoeddus ynghylch Prosiect Lliniaru Llifogydd Bae Hiracl a Theithio Llesol yn ardal Bangor a thu hwnt. Codwyd materion penodol a oedd yn cynnwys problemau sbwriel a phryderon iechyd cyhoeddus ar Ffordd Garth, a'r broblem hirsefydlog gyda biniau Caellepa. Trafodwyd yn sydyn drefniadau gwahodd pobl i gyfarfod nesaf Grŵp Delwedd Bangor.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7-02pm